| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 14/04/23 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 11/05/23 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | **Cymunedau** |
| **Man Gweithio:** | **Strategaeth Mannau Gwyrdd – Tîm Datblygu Gwledig** |
| **Manylion Cyswllt:** | **01443 838632**<br>RhaglenDatblyguGwledig@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | **Rhaglen Datblygu Gwledig** |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd y tîm datblygu gwledig yn defnyddio a rheoli eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch chi'n ymwneud â digwyddiadau ein rhaglen neu'n holi am, ymgeisio am neu gael cymorth ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol. |

# Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu eich ymholiad am gymorth gan y prosiect, Datganiad o Ddiddordeb, Cais am Grant gan gynnwys eich hunaniaeth, manylion cyswllt a manylion eich cwmni / sefydliad er mwyn asesu eich cymhwyster am gymorth ariannol o dan gynlluniau grant a chynlluniau heb grant Rhaglen Datblygu Gwledig y Cyngor. Bydd angen eich manylion banc hefyd os dyfernir grant.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hefyd yn recordio a defnyddio eich gwybodaeth bersonol i ddarparu gwybodaeth ar sut mae tîm y rhaglen datblygiad gwledig yn cyflawni yn erbyn targedau, allbynnau a chanlyniadau y cytunwyd arnynt.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Mae rhwymedigaeth tasg gyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth chi sy'n cael ei nodi isod:

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, sydd wedi'i amlinellu isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

> *1 (e) processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller;*

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Mr Carl Evans
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r maes gwasanaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Tîm y Rhaglen Datblygu Gwledig fydd prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth chi. Bydd yn galluogi'r tîm i roi cymorth priodol a pherthnasol i fuddiolwyr a derbynwyr cymorth ariannol ac anariannol. Bydd gwybodaeth yn cael ei defnyddio i gynorthwyo'r tîm i benderfynu ar gymhwyster prosiect, sefydliad neu unigolion ar gyfer cymorth ar sail gofynion cymhwysedd sy'n benodol i'r rhaglen.

Bydd aelodau tîm y Rhaglen Datblygu Gwledig yn cadw eich manylion personol, gan gynnwys eich hunaniaeth, manylion cyswllt, lleoliad, manylion busnes neu sefydliad cysylltiedig â lleoliad ar gronfa ddata electronig pan fyddwch yn cysylltu â'r rhaglen i roi tystiolaeth a chofnodi'r cyfanswm niferoedd, ardaloedd daearyddol a manylion demograffig unigolion a sefydliadau sy'n cysylltu â thîm y Rhaglen Datblygu Gwledig.

Bydd tîm y Rhaglen Datblygu Gwledig yn cadw copi caled o holl ffurflenni monitro personol, ffurflenni cais a gwybodaeth ategol yn ôl gofynion yr ariannwr priodol.

Mewn achosion lle mae cymorth ariannol uniongyrchol yn cael ei ddyfarnu, bydd angen copi o'ch manylion banc chi neu eich busnes chi. Bydd hefyd yn ofynnol i chi ddarparu copïau o drafodion ariannol, anfonebu, cofnodion cyflogaeth (lle cymeradwyir dyfarniad grant ar gyfer costau staff) yn dystiolaeth ar gyfer eich taliadau grant chi.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Bydd eich manylion yn cael eu rhannu ag aelodau o dimau cyllid corfforaethol ac archwilwyr rhaglen i asesu dilysrwydd hawliadau grant a wneir i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili drwy dîm y Rhaglen Datblygu Gwledig. Lle bo cais am gymorth ariannol neu anariannol yn ymwneud â gweithgaredd sydd angen trwydded, bydd y manylion yn cael eu rhannu â swyddogion perthnasol o fewn safonau masnach, trwyddedu, cynllunio neu orfodi.

Bydd adroddiad grant cryno yn cael ei ysgrifennu ar gyfer pob cais sy'n cynnwys enw'r ymgeisydd, enw busnes / sefydliad, lleoliad, gwerth ariannol y gofynnwyd amdano a dyraniadau ariannol blaenorol a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac a rennir gyda Chyllid Corfforaethol, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, a'r Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Mae tîm y Rhaglen Datblygu Gwledig yn cael ac yn gweinyddu cyllid o ffynonellau amrywiol ac mae'n ofynnol iddyn nhw ddarparu manylion prosiectau ac ymyriadau a gynorthwyir i'n cyllidwyr ni i ddangos ystod, cwmpas ac effaith gweithgarwch y prosiect o fewn ardal ddaearyddol neu thematig y rhaglenni y cytunwyd arnynt.

**Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol**

Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn cyflogi ymgynghorwyr allanol i werthuso a monitro cynnydd perfformiad ac effaith yn barhaus a bydd yn rhannu manylion cyswllt a manylion prosiect buddiolwyr ariannol ac anariannol llwyddiannus i gynorthwyo'r gwaith monitro. Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhannu â gwerthuswyr, archwilwyr ac ar gyfer ceisiadau cydymffurfio gan ein cyllidwyr ni yn ôl yr angen. Rydyn ni'n gweinyddu cyllid o sawl ffynhonnell, e.e. Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei chadw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth wedi'i darparu gennych chi yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch chi'n gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

**Manylion am y cyfnod cadw**

Mae pa mor hir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Cedwir ceisiadau am grantiau am 10 mlynedd yn dilyn cyhoeddi dyfarniad y grant.

Mewn perthynas â gwybodaeth nad yw'n gysylltiedig â'r grant, bydd yn cael ei chadw am 7 mlynedd yn unol â Pholisi Cadw Dogfennau Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, neu ganllawiau'r cynllun fel y gwelir yn eich llythyr dyfarnu grant.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data**

Mae'r ddeddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanyn nhw):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan ni: Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth sydd wedi'i nodi ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth sydd wedi'i nodi ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu eich ymholiad am gymorth gan y prosiect, Datganiad o Ddiddordeb, Cais am Grant gan gynnwys eich hunaniaeth, manylion cyswllt a manylion eich cwmni / sefydliad er mwyn asesu eich cymhwyster am gymorth ariannol o dan gynlluniau grant a chynlluniau heb grant Rhaglen Datblygu Gwledig y Cyngor. Rydyn ni'n dibynnu ar y sail gyfreithiol tasg gyhoeddus i brosesu fel y gwelir yn Erthygl 6 1(e) Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU. Gall eich gwybodaeth chi gael ei rannu'n fewnol gyda chyllid corfforaethol ac archwilwyr rhaglen i asesu dilysrwydd eich cais am grant. Gall eich gwybodaeth chi gael ei rannu â chyllidwyr i ddangos cwmpas ac effaith y cynllun. Mae ceisiadau am grant yn cael eu cadw am 10 mlynedd a gwybodaeth nad yw'n gysylltiedig â'r grant yn cael eu cadw am 7 mlynedd.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}